

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 26ain Medi, 2022**, yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadr, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)

Y Cyngorydd Siôn Williams (Is-Gadeirydd)

Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Gwenan Griffiths, Dylan Parry Jones, Michael Strain, Glenys Williams

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Elin Hughes, Efan Thomas, Carys E. Williams, Iwan J. Williams

Y Cyngorydd Gareth Williams (Cyngorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd)

41. **CROESAWU'R AELODAU**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod oedd bythefnos yn hwyr oherwydd marwolaeth Y Frenhines. Cafwyd ar ddeall gan Un Llais Cymru eu bod yn gohirio pob cyfarfod dros y cyfnod yma. Ymgynghorwyd a Chyngor Cymdeithas Aberdaron a chafwyd ar deall eu bod hwythau yn gohirio eu cyfarfod hyd ar ôl yr angladd Brenhinol. Cafwyd ar ddeall hefyd gan Y Cyngorydd Gareth Williams (Cyngorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd) na fyddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal gan Gyngor Gwynedd dros y cyfnod galaru.

Yn unol â hawliau'r Cadeirydd, cymerodd Y Cyngorydd Glyn Roberts yr hawl i ohirio cyfarfod y Cyngor am bythefnos.

42. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

43. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD Ileg GORFFENNAF, 2022**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd Ileg Gorffennaf, 2022. (Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Carys H. Evans ac eilwyd gan Y Cyngorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi

(A)Eitem 19 – Cadarnhau Cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd I3eg Gorffennaf, 2022(cymal (B) – Dathlu

Penderfynwyd trafod hwn ymhellach mewn cyfarfod o'r Cyngor.

(B)Eitem 34 – Ceisiadau Cynllunio – cymal (3) – Ystad Congl Meinciau, Botwnnog

Yn dilyn cysylltu â Grwp Cynefin ynglyn a'r darn tir a oedd wedi ei neilltuo ar gyfer creu maes chwarae ar Ystad Congl Meinciau, Botwnnog, derbyniwyd yr ymateb isod:

“Nid wyf yn gallu darganfod tystiolaeth gydag ymrwymiad a chytundeb fod mai pwrpas y tir oedd ar gyfer maes chwarae i blant. Roedd yn ymweld i'w wneud gyda thrafodaethau ar yr amser hefo'r datblygwr ar raddfa dyluniad y tai newydd, ag bod y tir yma wedi dod dros ben yn dilyn y trafodaethau yma.

Felly, yn bresennol nid oes bwriad gennym wneud dim mwy gyda'r pecyn o dir yma.”

Dywedodd y Clarc iddi drafod hwn gyda'r Cyngorydd Gareth Williams, Cyngor Gwynedd, ac y byddai ef yn adrodd ymhellach ar hyn.

Penderfynwyd oherwydd nad oedd Y Cyngorydd Williams yn gallu bod yn bresennol ar y noson, gohiriwyd unrhyw drafodaeth hyd y cyfarfod nesaf.

(C) Eitem 35 – Materion Ffyrdd a Llwybrau

Cyflwynwyd gwybodaeth gan Y Cyngorydd Gareth Williams, Cyngor Gwynedd ynglyn a'r materion a ganlyn:

(1) Gordyfiant ger Cae Llo, Botwnog

Nid oedd Cyngor Gwynedd yn gallu gwneud dim ynglyn a'r tyfiant ger Cae Llo, Botwnnog gan ei fod ar dir preifat. Bu i'r Cyngorydd Williams ofyn i Meirion Pugh, perchennog Cae Llo, am ganiatad i fynd i'w ardd i dorri'r coed a chytunodd yn syth. Gwnaed y gwaith gan Carwyn Evans a Martin Owen a chlirio'r cwbl. Diolchwyd i'r ddau am eu cymorth ac hefyd Charles Owen am gael mynd i'w gae gyda thractor a threlar.

Mae hyn wedi goleuo'r gornel ac yn hwyluso trafniadaeth o'r ddau gyfeiriad.

(2) Bin ym mhentref Sarn

Siaradodd Y Cyngorydd gyda Swyddog Gorfodaeth Gwastaff a Strydoedd a chytunodd fod angen bin ym mhentref Sarn Mellteyrn. Yn dilyn trafodaeth, daethpwyd i'r penderfyniad mai y man gorau i'r bin fyddai ger y fynedfa i faes parcio'r Neuadd – 'roedd y bin ar ei ffordd.

Gofynnodd y Swyddog hefyd a fyddai'n syniad mynd a'r bin sydd ger Meddygfa Rhydbach, Botwnnog, i bentref Sarn a'i osod ger giat y parc chwarae. Byddai hyn yn golygu fod dau fin ym Motwnnog a dau fin ym mhentref Sarn.

'Roedd Y Cyngorydd Williams yn awyddus i dderbyn barn y Cyngor.

(3) Cyflwr y ffordd ger Fferm Cellar, Botwnnog – dywedodd y Cyngorydd Williams fod cwynion i law ynglyn a chyflwr y ffordd a gofynnodd i'r Cyngor anfon y cyfryw ymlaen i'r Adran Priffyrdd.

Penderfynwyd diolch am sylwadau'r Cyngorydd Gareth Williams

(a) ac am drefnu i gael gwared o'r gorfydiant ym Motwnnog.

(b) Cytuno i symud y bin ger Y Feddygfa i bentref Sarn. (Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cyngorydd Dylan Parry Jones – pawb yn gytun).

(c) Gweler ymateb Peiriannydd Ardal Dwyfor ynglyn a ffordd ger Cellar, Botwnnog.

(CH) Materion Ffyrdd

Derbyniwyd ymateb Peiriannydd Ardal Dwyfor i gwynion anfonwyd i'w sylw ym mis Gorffennaf fel a ganlyn:

a) Lôn Cellar, Bownnog

"Mae rhan yma o lôn Cellar eisoes wedi'i hadnabod a'i hychwanegu at restr ail wynebu sydd i'w flaenoriaethu. Yn y cyfamser, mae'r ffordd yn cael ei harchwilio'n rheolaidd ac unrhyw ddiffygion yn cael sylw yn unol â pholisi Priffyrdd, Cyngor Gwynedd."

b) Gwynfa i Gapel Ty Mawr, Bryncroes

"Mae archwiliad wedi'i wneud o ffordd Gwynfa hyd at Gapel Ty Mawr, Bryncroes. 'Roedd cwmni barbio allanol y Cyngor eisoes wedi ymweld a'r safle ac wedi cwblhau'r gwaith. Does dim cyfiawnhad, ar hyn o bryd, i yrru llythyr gorfydiant i'r perchennogion tir, ond bydd yr achwiliwr yn cadw golwg ar y sefyllfa yn rheolaidd.

Penderfynwyd

(1) Nodi'r wybodaeth o dan (a) uchod.

(2) Tynnu sylw'r Peiriannydd Ardal nad yw'r Cyngor yn cytuno fod y tyfiant wedi ei dorri'n ôl oherwydd fod peiriannau yn dal i gael trafferth yma.

44. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd adroddiad fod cais C22/0666/32/LL wedi dod i law yn ystod mis Awst, i osod paneli solar PV ychwanegol gyda chapasiti cynhyrchu o 250 Kw ar adeiladau presennol yn Nanhoron Home Farm, Nanhoron.

Penderfynwyd cefnogi'r cyfryw.

45. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

Penderfynwyd

(a) ysgrifennu at yr Adran Priffyrdd yng Nghyngor Gwynedd yn gofyn iddynt ystyried barbio ffyrdd bychain o fewn yr ardal tra mae'r gwaith ar y priffyrd yn cymryd lle – yn ystod tywydd garw mae'r tyfiant wedi disgyn i'r ffordd ac yn peri trafferthion a pherygl i ddefnyddwyr y ffordd.

(b) Tynnu sylw yr Adran Oleu, Cyngor Gwynedd, fod y golau stryd o garage S. a B. Roberts i fyny am benlon sy'n arwain am Gefn Amlwch yn Sarn ddim yn gweithio.

(c) Addawodd Y Cyngorydd Dylan Parry Jones y byddai'n cael gair a Mr. J.A. Pozzi, ynglyn a thorri Llwybr Bach, Botwnnog, ac hefyd sodli'r tyfiant ar y llwybr.

(ch) Gofyn i'r Swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd am gael chwistrellu y tyfiant 'Japanese Knotwood' ar y ffordd o Ty'n Marla am Mellteyrn ac hefyd ger y bont ym Mryn croes.

46. **MYNWENT LLANDEGNNWING, BOTWNNOG**

Adroddwyd fod y giat newydd bellach yn ei lle ym Mynwent Llandegwnning, a diolchwyd i Glyn Roberts am ei waith ardderchog. Adroddodd y Clarc fod y cais am grant eisoes wedi ei gyflwyno.

Yn gynharach ar y noson cynhaliwyd cyfarfod o Is-bwyllgor y Fynwent pryd cyfarfu Y Cyngorydd Glyn Roberts (Cadeirydd), Y Cyngorwyr Carys H. Evans a Dylan Parry Jones. Argymhellwyd adolygu'r taliadau fel a ganlyn:

Cofrestru claddu	£25.00 (glynu at yr un tâl)
Llecyn bedd	£160.00 (codiad o £10)
Ail agor bedd	£160.00 (codiad o £10)
Claddu llwch	£130.00 (codiad o £10)
Claddu llwch – ail agor	£100.00 (codiad o £10)
Cofebau:	
Croes bren blaen	£ 5.00 (glynu at yr un tâl)
Hawl i fynd a charreg i'r fynwent	£100.00 (codiad o £10)
Ail osod carreg	£ 80.00 (codiad o £10)
Gosod slab bychan 'splayed vase'	£110.00 (codiad o £10)

(Golyga hyn osod slab ychwanegol os na fydd lle ar y garreg fedd i ysgrifennu).

Pendefynwyd gweithredu'n unol â'r prisiau uchod a'u bod yn dod yn weithredol o 1af Hydref, 2022.

Penderfynwyd ymhellach fod y taliadau i'w hadolygu'n flynyddol o hyn ymlaen.

47. **CÔD YMDDYGIAD**

Cyflwynwyd cais gan Glarc Cyngor Cymuned Aberdaron yn gofyn a fyddai gan y Cyngor ddiddordeb mewn trefnu cwrs hyfforddiant côd ymddygiad ar y cyd.

Penderfynwyd hysbysu'r Clarc na fyddai'r Cyngor yn awyddus i wneud hyn gan fod Un Llaid Cymru yn cynnig cyrsiau o'r fath yn fisol bron.

48. **TRETH GYNGOR DECACH**

Nodwyd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymyghoriad 'Treth Gyngor Decach' ac yn ceisio barn ar y cyfyw.

Penderfynwyd fod pob aelod i ymateb yn ôl eu dymuniad a dyma'r ddolen:

[Treth Gyngor Decach/Llywodraeth Cymru](#) a dilyn y linc.

Penderfynwyd ymhellach gofyn i'r Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Gwynedd, ymhelaethu ar beth yw bwriadu Cyngor Gwynedd ar y pwnc yma i gyfarfod nesaf o'r Cyngor.

49. **GWASANAETH HWYLUSYDD TAI GWLEDIG**

Cyflwynwyd adroddiad i Catrin Roberts, Hwylusydd Tai Gwledig, Grwp Cynefin, gysylltu a'r Clarc yn ystod y mis ac yn dymuno cael dod i gyfarfod y Cyngor i drafod a dod i 'adnabod anghenion tai lleol a chydweithio a'n partneriaid (sef Y Cynghorau Sir, Y Parc Cenedlaethol a Chymdeithasau Tai) i geisio diwallu'r anghenion hynny.

Mae Cymdeithas Dai Adra wedi adnabod darn o dir ym Motwnnog gallai o bosib ei ddefnyddio ar gyfer datblygu tai fforddiadwy i bobl leol. 'Rydym yn awyddus iawn i glywed barn chi fel Cyngor Cymuned am unrhyw ddatblygiad posib yn yr ardal, yn ogystal a gwybod beth yw eich barn a'ch dealltwriaeth chi am y sefyllfa dai yn yr ardal hon.'

'Roedd y Clarc wedi cynng, yn ddarostyngedig i'r Cyngor gytuno, fod Catrin Roberts yn dod i gyfarfod ar 10fed Hydref.

Yn y cyfamser derbyniwyd e-bost gan Catrin Huws, Uwch Swyddog Galluogi Tai Gymundeol yn gofyn am dod i gyfarfod o'r Cyngor.

Gan nad oedd y Cyngor yn sicr a oedd y ddwy yn sôn am yr un pwnc gofynnwyd i'r Clarc wneud ymholiadau a symud ymlaen i'w cyfarfod ar 10fed Hydref.

50. **GRANT DEFNYDD CYMUNEDOL O YSGOLION**

Cyflwynwyd e-bost gan Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd, ynglyn a'r uchod. Adroddodd Y Cynghorydd Elin Hughes ei bod eisoes wedi rhoddi copi i Bennaeth Ysgol Bownnog a dywedodd Y Cynghorydd Carys H. Evans ei bod hithau wedi anfon y wybodaeth i Bennaeth Ysgol Pont-y-Gof.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

51. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Un Llais Cymru – aelodaeth	£164.00 (siec 200758)
Cradur.com – we-letya 2022/23	£ 43.00 (siec 200759)
Cyngor Gwynedd – archwilio mewnol	£204.00 (siec 200760)
Y Clarc	£372.55 (siec 200761)
HMRC	£ 93.20 (siec 200762)

Adroddodd y Clarc mai drwy embaras llwyr 'roedd yn adrodd fod dirwy o £100 wedi ei dderbyn gan yr HMRC am fethiant i gyflwyno ffurflen TWE mewn pryd am y chwarter ddaeth i ben ar 5ed Gorffennaf, 2022. Dywedodd ei bod yn hollol fodlon talu'r ddirwy yma ei hun gan mai ei chamgymeriad oedd, ond gofynnodd yr aelodau iddi gysylltu a'r HMRC yn y lle cyntaf i drafod y mater.

52. **SESIYNAU HYFFORDDI GAN UN LLAIS CYMRU**

Cyflwynwyd rhestr o sesiynau hyfforddi ar gyfer mis Medi/Hydref gan Un Llais Cymru. Gofynnodd Y Cynghorydd Gwenan Griffith a fyddai modd iddi gael gwrs ar 'Dealltwriaeth o'r Gyfraith' a **phenderfynwyd** cytuno i hynny.

53. **DIOLCHIADAU**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith nad oeddem fel Cyngor wedi anfon gair o ddiolch at David Brunelli nag Ifor Owen yn dilyn eu hymddeoliad yn ôl ym mis Mai.

Penderfynwyd

- a) Fod y Clarc i anfon gair o ddiolch.
- b) Gofyn i ohebwy'r Penygroeslon; Bryncroes a Sarn; ac hefyd Botwnnog roddi nodyn o ddiolch o dan eu colofnau yn Llanw Llyn.